

# Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gofal Cymdeithasol



## YMATEB GAN CGGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein pwrpas yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.
2. Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn cynnwys dros wyth y cant o'r gweithlu cyflogedig yng Nghymru. Mae hyn gyfwerth â thua 100,000 o gyflogeion. Mae 156,000 o bobl yng Nghymru hefyd yn gwirfoddoli ym maes iechyd, anabledd a mudiadau lles cymdeithasol gyda dros 48,500 o fudiadau gwirfoddol yn cefnogi a gwella canlyniadau iechyd a llesiant cymdeithasol dinasyddion (defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl).
3. Mae CGGC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

**Ydych chi'n cytuno y dylai adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad gael eu paratoi ar sail ranbarthol, gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol trwy'r byrddau partneriaeth lleol? Os na, nodwch eich rhesymau, os gwelwch yn dda.**

4. Fel mecanwaith cyfredol, y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs) – o ystyried yr amserlen ar gyfer cynnwys, ymgynghori a pharatoi, ac yn absenoldeb dewis dichonadwy arall y cytunwyd arno – yw'r cyrff priodol i baratoi'r Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad.
5. Fodd bynnag, wrth feddwl am gydgyhyrchu, mae partneriaid eraill nad ydynt yn cael eu crybwyll yn y cwestiwn a ddylai gefnogi'r paratoad a gwneud sylw ar yr adroddiadau rhanbarthol ar Sefydlogrwydd y Farchnad, sy'n adlewyrchu addasrwydd (neu beidio) darpariaeth gofal a chefnogaeth y sector gwirfoddol.

6. Rydym yn ymwybodol y bydd y ffactorau canlynol yn cael effaith ar sut caiff y farchnad gofal cymdeithasol ei sefydlogi:
- Mae'r farchnad gofal cymdeithasol yn parhau i ymateb i Covid-19.
  - Mae'r agenda Sefydlogi ac Ailadeiladu yn gweithio mewn modd deuaidd, ochr yn ochr â'r cynllunio a'r ymateb i sefyllfa Covid-19 sy'n newid yn barhaus.
  - Adroddwyd yn helaeth ynglŷn â breuder y farchnad gofal cymdeithasol cyn Covid-19, a ddaeth yn fwy amlwg yn ystod yr argyfwng. Mae angen canolbwyntio ar faterion penodol ond nid ar draul gwasanaethau gofal a chefnogaeth eraill a ddarperir yn y gymuned.
  - Mae mudiadau'r sector gwirfoddol, er iddynt newid eu dull o ddarparu gwasanaeth, mewn sefyllfa ansicr debyg yn sgil nifer o ffactorau, gan gynnwys colli incwm.
  - Mae angen edrych ar yr ymgynghoriad hwn yng nghyd-destun yr arfarnu opsiynau a amlinellwyd yn Dyfodol Gofal Cymdeithasol (Social Care Futures). Mae'n hanfodol allosod anghenion allweddol y boblogaeth, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl yn y cyd-destun hwn er mwyn darparu mwy o gysondeb a lleihau'r cymhlethdodau o fewn darpariaeth gofal cymdeithasol.
  - Mae angen adlewyrchu ar y modd y cynhaliwyd yr asesiad blaenorol o anghenion y boblogaeth er mwyn gwella ymglymiad pobl (defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl).

**Ydych chi'n credu y dylai adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad gael eu cynhyrchu ar gylich pum mlynedd, ochr yn ochr â'r asesiadau o anghenion y boblogaeth? Os na, pa drefniadau eraill fydddech chi'n eu cynnig, a pham?**

7. Rydym ni'n cytuno bod cylch pum mlynedd yn briodol ac yn gweithredu'n gwbl gyson â'r amserlen i gynhyrchu'r Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth (PNAs) ac i fwydo i'r Cynllun Ardal Leol, a ddylai adlewyrchu cynnwys yr Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad (MSRs) ac fel arall.
8. Ond dylai'r ddau (PNAs ac MSRs) fod â phwyntiau gwirio a phroses gasglu data barhaus yn eu lle, yn ogystal ag ymglymiad i ymateb i anghenion sy'n newid. Mae hyn yn hanfodol gan ein bod yn byw mewn cyd-destun cyfnewidiol, ac ni ellir goroesi'r newidiadau hynny heb ymateb cyflym.
9. Y nodwedd allweddol yw sut cynhelir yr Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth a'r modd y cynhwysir pobl a sut mae eu safbwyntiau, eu profiadau a'u hanghenion yn amlwg yn bwydo i'r Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad. Gwyddom gan gydweithwyr yn y sector gwirfoddol, a fu ynghlwm â'r broses Asesu Anghenion y Boblogaeth flaenorol, nad oedd rhywfaint o'r data mor glir nac mor gywir ag y dylai fod wedi bod, ac mae'n bosibl na wnaeth hyn adlewyrchu gwir natur y safle

rhanbarthol ar draws y grwpiau a adwaenwyd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

10. Mae'n bwysig deall mecanweithiau adrodd pob awdurdod lleol, gan gynnwys gwahaniaethau yn y modd yr ymdrinir â data a sut caiff ei ddehongli. Tra bod ymgyrch i gael marchnad gymysg, y tric yw cynnal y cydbwysedd sydd ei angen, tra'n cadw mewn cof nad yw'r casgliad enfawr o fudiadau bychain sy'n darparu gwasanaethau gofal a chefnogaeth debyg yn gynaliadwy. Bydd angen sgwrsiau ynglŷn â datblygu partneriaethau dichonadwy ar draws mudiadau a sectorau.

**Ydyn ni wedi manylu ynglŷn â'r holl faterion allweddol sydd angen eu cynnwys mewn adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad? Os oes materion eraill y credwch y dylent gael eu cynnwys, rhwch fanylion, os gwelwch yn dda.**

11. Mae'n dda gweld cyfeiriad yn y Cod Ymddygiad at y ffaith 'y dylai awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol er mwyn ymgysylltu â dinasyddion wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad'. Serch hynny, byddem yn disgwyl bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn amlinellu'n glir sut y gwnaethant gynnwys dinasyddion. Mae angen i hyn gael ei ddiffinio yn y Cod Ymddygiad, yn ogystal â'r hyn sy'n ddisgwylidig a sut caiff ymglymiad o'r fath ei reoli – nid amlinellu pwy ddylai fod ynghlwm yn unig.

**Ydych chi'n cytuno y dylid adolygu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn rheolaidd a'u diwygio pan fo angen, ond o leiaf hanner ffordd drwy'r cylch pum mlynedd? Os na, pa drefniadau monitro ac adolygu eraill fydddech chi'n eu cynnig, a pham?**

12. Ydyn, oni bai bod y cyd-destun yn newid – er enghraifft, yr angen i ddod â phwynt gwirio ymlaen, neu pan fydd problemau ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau penodol.

**Yn eich barn chi, ydy'r cod ymddygiad drafft yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng yr hyn sy'n ofynnol o awdurdodau lleol a'r hyn a adewir i'w dewis nhw? Oes gofynion neu ganllawiau pellach yr hoffech weld yn cael eu hychwanegu, neu ffyrdd eraill y gellid eu defnyddio i gymeradwyo'r ddogfen?**

13. Mae angen i'r Cod Ymddygiad amlinellu'r hyn sy'n cael ei ystyried yn 'rhesymol', a phwy sy'n gwneud y penderfyniad o ran yr hyn sy'n dderbyniol ai peidio, yn enwedig o safbwynt ymglymiad dinasyddion.
14. Yn yr un modd, rhaid i'r hyn sy'n 'ddigonol' gael ei amlinellu, gan fod hyn hefyd yn gallu golygu dim ond digon ac nid o anghenraid marchnad a allai ymdopi ag argyfyngau cenedlaethol yn y dyfodol. Gallai hefyd greu dewis cyfyngedig i bobl yn

sgil ansicrwydd cyllido a Brexit (gan gynnwys tâl teg a diffyg o ran dinasyddion yr UE fydd yn chwilio am waith yn y DU ar ôl Brexit):

- Mae angen arweiniad clir ar y mathau o fecanweithiau sydd rhaid eu cael yn eu lle er mwyn cynnwys pobl. Yn ganolog i hynny mae pwysigrwydd ymwreiddio egwyddorion cyd-gynhyrchu mewn arferion ymglymu. Golyga hyn weithio gyda dinasyddion (defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl) ac nid rhwng mudiadau partner – cydweithredu yw hynny. Mae hi'n bwysig gwrandao ar brofiadau ac anghenion pobl a'r math o wasanaethau gofal a chefnogaeth y credant fydd yn cwrdd â'u hanghenion er mwyn sicrhau dewis a sector gofal a chefnogaeth marchnad gymysg doreithiog. Mae pwynt 3.19 yn bwysig er mwyn sicrhau bod dewis ac anghenion yn cael eu hadnabod er mwyn bwydo a darparu marchnad gymysg o wasanaethau gofal a chefnogaeth wedi'i reoleiddio.
- Golyga monopoleiddio ddewis cyfyngedig i lawer, ac mae marchnad gymysg yn galluogi pobl i ystyried eu hopsiynau yn hytrach na chael eu ffitio i wasanaeth gan mai dyna'r unig adnodd sydd ar gael, a'u gadael i grebwyll pobl eraill.
- Rhaid i 'digonol' olygu hefyd bod ansawdd i ddarpariaeth, pwy bynnag sy'n ei ddarparu, ac nad yw'r safonau isaf yn cael eu gweld fel y man ar gyfer pitsio gwasanaeth. Yn hytrach, dylai gwasanaeth anelu'n uwch a chwrdd ag amcanion personol pobl (defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl). Felly, mae'r gwerthoedd craidd sy'n cael eu harddel gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn hanfodol er mwyn gyrru ansawdd.
- Dylai pwysigrwydd gwella canlyniadau i bobl a sut mae marchnad gofal a chefnogaeth cymysg, sefydlog a chynaliadwy yn cyflawni hyn fod yn flaenllaw yn y Cod Ymddygiad.
- Mae angen eglurder pellach ynghylch Adran 16 (Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) a rôl y Fforymau Gwerth Cymdeithasol fel y symbylydd a'r pensaer er mwyn datblygu modelau darparu amgen. Rhaid i rôl y Fforymau Gwerth Cymdeithasol gael eu hail-ystyried er mwyn penderfynu sut bydd hynny'n digwydd a pha adnoddau sydd eu hangen arnynt.

**Yn eich barn chi, a yw'r canllaw statudol drafft yn amlinellu'n glir y dull partneriaeth y dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ei gymryd wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad? Oes gofynion neu ganllawiau pellach y carech eu gweld yn cael eu hychwanegu, neu ffyrdd eraill y gellid gwella ar y ddogfen?**

15. Yn ystod y pandemig, mae ymgysylltiad rhwng y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol wedi cynyddu a gwella yn aml. Cafwyd cydnabyddiaeth y byddai'n ddefnyddiol gwreiddio sgysiau amserol a phriodol gyda'r sector gwirfoddol i'r holl gynllunio a phrosesau.

16. Dylai fod yn gyfrifoldeb ar bawb (yr holl bartneriaid, gan gynnwys y sector gwirfoddol ac yn enwedig defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl) i sicrhau fod dull o weithio

mewn partneriaeth yn cael ei meithrin. Mae defnyddio'r term 'rhaid' gydol y Cod Ymddygiad yn cryfhau'r modd y caiff yr adroddiadau eu paratoi.

17. Fodd bynnag, rhaid amlinellu'n gliriach sut mae dinasyddion (defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl) ynghlwm. Nid yw'r Cod Ymddygiad yn defnyddio'r term 'cydgynhyrchu' nac yn cyfeirio ato. O ystyried bod cyd-gynhyrchu yn un o egwyddorion craidd y Ddeddf mae'n anffodus nad yw'r Cod Ymddygiad yn llwyddo i bwysleisio'i bwysigrwydd.

**Pa effeithiau ydych chi'n credu fydd ein cynigion yn eu cael ar ddyletswyddau cyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu ar ddyletswydd awdurdod lleol o dan Ddeddf 2014 i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, yn ogystal â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau Deallusol neu Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn?**

18. Yn ddiweddar, dathlodd y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (1995) ei phenblwydd yn 25<sup>ain</sup> oed. Cyrhaeddodd y Ddeddf a ddaeth yn ei lle, y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a sicrhodd y safonau gofynnol o gydraddoldeb, ei 10<sup>fed</sup> penblwydd eleni. Fodd bynnag, mae perygl, fel gwelwyd yn ystod pandemig Covid-19, y bydd hawliau pobl yn parhau i gael eu herydu ac na fydd eu hanghenion yn cael eu diwallu er bod ganddynt gynllun gofal a chefnogaeth, gan fod perygl na fydd gwasanaethau ar gael i gwrdd â'u hanghenion heb:

- Ddod o hyd i ffyrdd/ modelau amgen o ddarparu gwasanaethau gofal a chefnogaeth yn y cartref neu'n agos i'r cartref, a
- thrwy economi gymysg o weithgareddau/ gwasanaethau cyhoeddus, gwirfoddol, cymunedol ac annibynnol.

19. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cwmpasu egwyddorion Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig a dylai gryfhau'r dyletswyddau i weithredu, amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl a model cymdeithasol anabledd, ochr yn ochr â'r Confensiynau a enwir uchod a all ddylanwadu ar benderfyniadau Llys yn y DU ond nad ydynt wedi'u cymell yn uniongyrchol.

20. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb fel arfer yn mynd ymhellach nag, er enghraifft, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau trwy amlinellu nodweddion gwarchoddedig anabledd. Yr hyn sy'n amwys ynglŷn â'r Ddeddf yw'r hyn a olygir gan 'ymaddasu rhesymol' – yma, mae'r Ddeddf yn agored i gael ei dehongli. Lle gellid cael problemau, ar ôl Brexit, yw ynghylch cyfraith yr UE a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol gan y bydd yn cael gwared ar lwybr cyfreithiol i nifer.

21. Bydd cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, yn ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol o'r 31 Mawrth 2021.

Bydd y Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff perthnasol, wrth wneud penderfyniadau strategol, i roi sylw dyledus i'r angen i ostwng anghydraddoldeb sy'n ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol. Yn ychwanegol at y nodweddion gwarchoddedig a'r sylw dyledus i gonfensiynau ac egwyddorion y Cenedloedd Unedig, dylai anfantais economaidd-gymdeithasol ddod yn rhan hefyd o Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a gyflawnir fel rhan o'r broses o baratoi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad.

**O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau. Carem wybod i ba raddau y credwch y bydd ein cynigion yn cefnogi'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a amlinellir yn y Ddeddf.**

22. Yn ddiddorol, nid oes sôn am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y Cod Ymddygiad, er mai creu marchnad sefydlog yw'r cysail canolog. Golyga hyn fod angen i'r farchnad fod yn gynaliadwy, sy'n golygu bod angen i gyrff cyhoeddus weithio tuag at a gwireddu'r holl Nodau Llesiant. Mae'r diffiniad o 'datblygu cynaliadwy' yn eang. Fodd bynnag, mae angen i'r Cod Ymddygiad amlinellu â mwy o eglurdeb fod gofyn i'r Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad adnabod ar lefel ranbarthol pa mor sefydlog a chynaliadwy y gall gwasanaethau gofal cymdeithasol fod, yn enwedig trwy gomisiynu defnydd o gyllid a chyllidebau cyfun mewn modd realistig a chyraeddadwy.

## **TRAFODAETH**

1. Byddai CGGC yn falch o drafod y rhain neu unrhyw bwyntiau eraill yn ymwneud â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad gyda swyddogion, pwyllgorau neu Weinidogion, pe bai angen.

*Sally Rees*

*Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol y Trydydd Sector CGGC*  
[srees@wcva.org.uk](mailto:srees@wcva.org.uk)

*Tachwedd 2020*

